**Ymateb y Llywodraeth:** Rheoliadau Marchnata Hadau, Planhigion a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2020

Diolch i'r Pwyllgor am ei adroddiad. Mae'r hyn a ganlyn yn cyfeirio at yr elfennau hynny o'r adroddiad yr oedd y Pwyllgor am gael ymateb iddynt.

**Craffu Technegol**

Pwynt 1 Mae hwn yn hen gamgymeriad. Pan gywirodd Llywodraeth y DU gamgymeriad yn Rheoliadau cyfatebol Lloegr ar gyfer Tatws Hadyd nodwyd hyn fel camgymeriad fformadu (amgaewn ddolenni at y Rheoliadau hynny a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig er hwylustod i'r Pwyllgor). Mae unrhyw newid o sylwedd sy'n deillio o gywiro'r camgymeriad yn gwireddu'r polisi a fwriadwyd yn hytrach nag adlewyrchu newid mewn polisi. Ni sylwyd ar y camgymeriad, gan ei fod mor gynnil.

http://www.legislation.gov.uk/uksi/2017/288/contents/made;

http://www.legislation.gov.uk/uksi/2017/288/memorandum/contents;

Pwynt 2 Mae'r effaith y bwriedir i'r ddarpariaeth ei chael yn glir o hyd a chaiff y camgymeriad ei gywiro y tro nesaf y caiff Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016 eu diwygio.

**Craffu ar Rinweddau**

Pwynt 5 Dyma bwynt da sy'n ymwneud â chyfeiriadau mewn troednodiadau. Gan nad yw'r cyfeiriadau yn newid effaith y darpariaethau nid ydym yn bwriadu diwygio'r troednodiadau.

Pwynt 6 Nid yw'n ymddangos bod fersiwn wreiddiol Argraffydd y Frenhines o Reoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016 (ynghlwm er hwylustod i'r Pwyllgor), fel y'i cyhoeddwyd ar wefan legislation.co.uk, yn cynnwys yr anghysondeb a nodir.